



Mae'r Gostyngiad i Gyn-fyfyrwyr yn rhoi gostyngiad o 20% oddi ar ffioedd dysgu ac mae'n cael ei ddyrannu'n awtomatig yn erbyn ffioedd dysgu, ar ôl i chi gofrestru.

1. MEINI PRAWF CYMHWYSTER

Bydd y gostyngiad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig os ydych chi'n cwrdd â'r holl ofynion canlynol:

- A. Rhaid i chi fod yn **gyn-fyfyriwr llawn amser neu ran-amser ym Met Caerdydd** (neu fel UWIC/Sefydliad Addysg Uwch Caerdydd). Mae hyn yn cynnwys partneriaid rhyddfraint.
- B. Rydych wedi cyflawni **cymhwyster israddedig neu ôl-raddedig gyda ni** (gan gynnwys cymwysterau TAR).
- C. Rydych wedi **cofrestru ac yn astudio ar raglen ôl-raddedig** ar gampws yng Nghaerdydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd; neu'ch bod wedi **cofrestru ac yn astudio ar raglen ymchwil** naill ai wedi'i lleoli ar gampws yng Nghaerdydd neu ar-lein, yn ystod blwyddyn academiaidd 2027/28.
- D. Rhaid i chi fod yn atebol am y gost ffi ddysgu lawn eich cwrs ôl-raddedig a chael eich **ariannu'n gyfan gwbl breifat** (caniateir cyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru neu Loegr) a **ddim yn derbyn nawdd** gan unrhyw gorff arall (ee cyflogwr, darparwr unrhyw ysgoloriaeth arall neu fwrsariaeth) a hefyd ddim yn derbyn unrhyw daliadau cymhelliant (ee cymhelliant y llywodraeth).
Os bydd eich amgylchiadau ariannol yn newid, hynny yw bod cyfraniad ariannol yn cael ei dderbynnir tuag at eich ffioedd gan noddwr yn ystod gwrs sy'n para mwy na blwyddyn, ni ddyfernir y Gostyngiad i Gyn-fyfyrwyr ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

2. TERFYNAU

- **Nid ydych yn gymwys** ar gyfer y wobr os ydych:
 - o wedi cofrestru ar **raglen Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol TAR (AHO)**.
 - o yn **fyfyrwyr Erasmus**.
 - o yn fyfyriwr o **bartner rhyddfrentiedig y tu allan i'r DU**, sy'n dilyn eich cwrs ôl-raddedig dramor.
 - o yn derbyn **gostyngiadau staff neu bartneriaeth gyfredol**.
 - o yn derbyn unrhyw **ddyfarniad Bwrsariaeth y GIG**.
- Os yw myfyrwyr yn trosglwyddo credydau ac yn cael **Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB)** ar gyfer eu cwrs yna bydd y **Gostyngiad i Gyn-Fyfyrwyr gymesur** â'r ffioedd a godir am y credydau a gymerir.
- Yn ôl disgresiwn y Brifysgol, bydd yn rhaid dyfarnu os yw myfyrwr yn ailsefyll, a bydd amgylchiadau lliniarol yn cael eu hystyried.
- Bydd y Gostyngiad i Gyn-fyfyrwyr yn cael ei **dynnu'n ôl os bydd myfyrwr yn trosglwyddo** i gwrs nad yw'n gymwys.
- Bydd myfyrwyr sy'n derbyn y Gostyngiad Cyn-fyfyrwyr Met Caerdydd sydd hefyd yn gymwys ar gyfer **Bwrsari Cymhelliant Gradd Meistr Ôl-raddedig a Addysgir yng Nghymru** yn derbyn y ddau ostyngiad ffioedd, gyda'r Gostyngiad Cyn-fyfyrwyr yn cael ei gymhwyso gyntaf.